

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 24ain Gorffennaf, 2024 at 4.30 pm

## Councillors Present

County Councillor Jane Lucas (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Lisa Dymock, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas, John Crook, Paul Griffiths, Simon Howarth, Richard John, Phil Murphy and Frances Taylor

Also in attendance County Councillors:

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Mark Davies, Highway Development Manager  
Rachel Lewis, Rheolwr Polisi Cynllunio  
Huw Owen, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd Cyhoeddus)  
Kate Stinchcombe, Biodiversity & Ecology Officer  
Philip Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Daniel Hulmes, Biodiversity and Ecology Officer  
Ben Thorpe, Development Surveyor

**APOLOGIES:** Councillors Emma Bryn and Tomos Davies

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Crook fuddiant nad oedd yn rhagfarnol am safle Langley Close, Magwyr.

### 2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Cyflwynodd nifer o siaradwyr cyhoeddus sylwadau i'r pwyllgor. Mynegodd y mwyafrif o siaradwyr bryderon am addasrwydd Bradbury Farm ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, gan nodi materion fel llygredd sŵn, halogiad tir, crynodiad safleoedd a diffyg amwynderau.

Amlygwyd arwyddocâd hanesyddol yr ardal a'r effeithiau ecolegol posibl, gan gynnwys presenoldeb rhywogaethau a warchodir, fel rhesymau dros ddatblygu rhai safleoedd.

Crybwyllwyd y diffyg mynediad ac allanfeydd diogel, yn enwedig i gerbydau mawr, ac absenoldeb amwynderau cyfagos fel heriau i Fferm Bradbury arfaethedig.

Cafwyd beirniadaeth o'r broses ymgynghori, gyda rhai yn teimlo nad oedd yn ystyried adborth cymunedol yn ddigonol nac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Gwnaed awgrymiadau ar gyfer archwilio atebion amgen, megis cydweithredu ag awdurdodau cyfagos, gwella safleoedd presennol gyda chyllid Llywodraeth Cymru, ac ailystyried y broses ddethol ar gyfer safleoedd newydd.

Cafwyd sylwadau hefyd i gefnogi Bradbury Farm, a mynegi undod gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Yn ogystal, roedd nifer o ddatganiadau am anaddasrwydd Langley Close. Mae'r datganiadau hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad yr adroddiadau y dylid tynnu Langley Close o'r broses adnabod safleoedd.

### **3. Cynigion ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Anerchwyd y pwyllgor gan Aelodau Ward Lleol Lisa Dymock, Phil Murphy a Frances Taylor.

#### **Y Cynghorydd Dymock:**

Mynegodd y Cynghorydd Dymock bryderon ynghylch addasrwydd safleoedd arfaethedig ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, gan dynnu sylw at faterion fel llygredd sŵn, halogiad tir, a diffyg amwynderau. Mynegodd bryderon ynghylch y ffaith bod tri o'r safleoedd hyn wedi'u lleoli i gyd o fewn milltir, a phryderon ynghylch cynnig y safle deuol a'r heriau niferus mae hynny'n creu. Pwysleisiodd arwyddocâd hanesyddol yr ardal a'r effeithiau ecolegol posibl, gan gynnwys presenoldeb rhywogaethau a warchodir, fel rhesymau yn erbyn datblygu rhai safleoedd. Soniodd am y diffyg mynediad ac allanfeydd diogel, yn enwedig ar gyfer cerbydau mawr, ac absenoldeb amwynderau cyfagos, fel heriau i'r safleoedd arfaethedig.

Beirniadodd y Cynghorydd Dymock y broses ymgynghori, gan ddadlau nad oedd yn ystyried adborth y gymuned yn ddigonol nac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a mynegodd siom ynghylch yr amseru a'r ffordd y cyflwynwyd gwybodaeth i'r cyhoedd.

Awgrymodd archwilio atebion amgen, megis cydweithio ag awdurdodau cyfagos, gwella safleoedd presennol gyda chyllid Llywodraeth Cymru, ac ailystyried y broses ddethol ar gyfer safleoedd newydd. Holwyd dibynadwyedd a thryloywder graddfeydd CAG a'r rhesymeg dros dderbyn neu wrthod rhai safleoedd, a phwysleisiodd yr angen am broses dryloyw a chynhwysol sy'n mynd â'r holl randdeiliaid ar hyd y daith. Cynigiodd y Cynghorydd Dymock fod y pwyllgor yn argymhell Opsiw 4.

#### **Y Cynghorydd Taylor:**

Cefnogodd y Cynghorydd Taylor argymhelliad yr adroddiad i dynnu Langley Close o broses adnabod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr oherwydd ei fod yn anaddas ar sail sŵn, halogiad tir, ac ystyriaethau cynllunio deunydd ychwanegol eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Taylor ei bod o'r farn bod Langley Close yn gwbl anaddas ac yn methu cytuno â'r sylw yn yr adroddiad ei fod yn 'llai addas'. Gofynnodd y Cynghorydd Taylor fod y term yn cael ei ddisodli gydag 'anaddas' i adlewyrchu'r canfyddiadau materol, tystiolaeth o ymgynghoriad cyhoeddus ac arolygon ymchwilio i'r safle a nododd fod y safle'n gwbl anaddas.

Amlygodd y Cynghorydd Taylor fod yr asesiad sŵn yn dangos bod risg 'uchel' o sŵn, gan gael effaith andwyol ar ran ogleddol y safle, tra byddai gweddiill y safle yn wynebu risg 'ganolig' o sŵn, gan gael effaith andwyol ar y safle. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bwysig nodi mai bwriad y canllawiau hyn yn bennaf yw ymdrin ag anheddau sydd wedi'u hadeiladu o frics a mortar. Mae cartrefi symudol yn darparu lefelau sylweddol is o wanhad sain rhwng y tu allan a'r tu mewn.

Byddai lleoliad yr ardal y gellir ei datblygu, y cyfeirir ati fel NEC B, (yn amodol ar fesurau lliniaru) yn cael effaith ar gynllun a maint y cynnig a fyddai'n cyfyngu ymhellach ar yr ardal y gellir ei datblygu a materion dylunio presennol. Mae hyn yn debygol o waethygu ymhellach gan bresenoldeb tebygol 'tir wedi'i wneud', fel y nodwyd gan yr arolwg halogi tir.

Gofynnodd i'r pwyllgor gefnogi tynnu Langley Close a chytuno nad yw'r safle yn 'llai addas' ond yn 'anaddas'. Dywedodd ei bod yn bwysig nodi y byddai'r canfyddiadau sŵn a halogi annibynnol yn debygol o atal y safle rhag denu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu safleoedd.

### **Y Cyngorydd Murphy:**

Mynegodd y Cyngorydd Murphy bryderon am addasrwydd safleoedd arfaethedig ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr, gan dynnu sylw at yr effaith ar gymuned Crug ac anaddasrwydd y safleoedd oherwydd ffactorau amrywiol megis sŵn, halogiad tir, a diffyg amwynderau. Soniodd fod gan Grug ddau safle eisoes, a byddai ychwanegu un arall yn effeithio'n anghymesur ar y gymuned. Nododd hefyd yr effaith bosibl ar werthoedd eiddo ac ansawdd bywyd y gymuned.

Tynnodd y Cyngorydd Murphy sylw hefyd at am y diffyg mynediad ac allanfeydd diogel, yn enwedig ar gyfer cerbydau mawr, ac absenoldeb amwynderau cyfagos, fel heriau i'r safleoedd arfaethedig. Awgrymodd y dylai'r Cyngor nodi safle mwy addas, felly'n argymhell opsiwn pedwar.

### **Cyflwyno'r adroddiad:**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths yr adroddiad. Tynnodd sylw at ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor i ddarparu tir i drigolion Sipsiwn, Roma a Theithwyr a soniodd am yr ymdrechion parhaus ers 2018 i nodi safleoedd addas. Pwysleisiodd pa mor drylwyr oedd y chwiliad a fu am leoliadau addas, gyda phroses asesu o dros 1500 o safleoedd, a nododd fod yr angen a aseswyd am leiniau wedi gostwng o 13 i 7, oherwydd cydsyniad cynllunio a gafwyd mewn manau eraill.

Argymhellodd y Cyngorydd Griffiths mai Bradbury Farm oedd y safle mwyaf addas ymhlith y rhai a ystyriwyd, gan nodi'r potensial ar gyfer lliniaru sŵn ac integreiddio â datblygiad preswyl strategol, a phwysleisiodd bwysigrwydd uwchgynllunio - yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) a safleoedd strategol - er mwyn sicrhau gwahaniad a hygyrchedd i deuluoedd Teithwyr, gan awgrymu y gellir rheoli hyn yn effeithiol o fewn datblygiad y safle strategol mwy. Ni fyddai Bradbury Farm, felly, yn cael ei datblygu ar ei phen ei hun.

Nododd y byddai cais cynllunio yn y dyfodol yn rhoi cyfle i asesu'r cynlluniau manwl ar gyfer lliniaru sŵn, tirlunio a chynllun, gan sicrhau addasrwydd y safle.

Atebodd y Cyngorydd Griffiths gwestiynau'r aelodau gyda Frances O'Brien ac Ian Bakewell.

### **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau:**

- Egluro a oedd llifogydd yn bryder mewn perthynas â safle Bradbury Farm - cadarnhaodd swyddogion nad yw'r safle yn cael ei adnabod o fewn y parth llifogydd.
- Cafwyd awgrym bod enw safle Bradbury Farm efallai'n ychydig o gamenw ac efallai ei fod yn cyfrannu at ddryswch o amgylch lleoliad y safle.
- Cydnabod yr angen i edrych nid yn unig ar y 7 cae, ond y CDLIN cyfan a'r cynllun strategol.
- Nodi bod angen bod yn ofalus ynglŷn â thirlunio a lliniaru sŵn.
- Gan arsylwi ar hynny, trwy gyfatebiaeth, pan gynigiwyd ystâd Elder Wood am y tro cyntaf, nid oedd yn edrych fel safle hyfyw, ond trwy Gynllunio a datblygu fe'i datblygwyd i'r safon angenrheidiol.
- O ran seilwaith, cydnabod bod angen i ddeintyddion a meddygon teulu'r GIG fod mewn lle, gan eu bod eisoes wedi gordanystrifio yng Nglannau Hafren.

- O ystyried cynnydd y safle yn Llancayo, gofynnodd yr aelodau a oes safleoedd preifat eraill y gellid rhoi cydsyniad iddynt yn yr un modd, ac felly lleihau'r angen cyffredinol am y llain.
- Mynegi siom nad oedd tystiolaeth ynghylch aelodau ward lleol Langley Close ac Oak Grove Farm wedi cael eu hymgyngori ar yr adroddiad.
- Cynigiodd sawl aelod bod safleoedd Oak Grove Farm a Langley Close yn cael eu tynnu'n ôl o'r broses yn llwyr, trwy gael eu dynodi'n 'anaddas' yn hytrach na 'llai addas', er mwyn sicrhau na ellir eu hail-gynnig yn ddiweddarach fel safleoedd ymgeisiol.
- Gofyn a gafodd y CDLIN ei esbonio'n llawn yn ystod yr ymgynghoriad a beth yw'r dystiolaeth ar gyfer hynny. Roedd byrddau arddangos yn y sesiynau galw heibio ymgynghori yn adlewyrchu hyn.
- Ceisio cadarnhad, os yw'r safle'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo ond wedyn yn cael ei ganfod yn fwy anaddas, y bydd yn cael ei ddileu o'r ystyriaeth.
- Mynegi pryder am ddiffyg llwybr troed ar ffordd gul, ddigyfyngiad.
- Gofyn pam fod y sgôr CAG ar gyfer agosatrywydd Bradbury Farm i ysgolion presennol yn Wyrdd, gan fod ysgol Archesgob Rowan Williams wedi cael ei gordanysgrifio, gan nodi, er bod arian ar gael drwy gyllid Adran 106 i gynyddu capasiti, nad yw'r arian hwnnw wedi'i ddyrannu eto.
- Mynegi pryder am y defnydd o safle tir glas, gofyn a oes safleoedd ôl-ddiwydiannol y gellid eu hystyried, ac a ydynt wedi cael eu harchwilio'n ddigonol.
- Amau y bydd Bradbury Farm yn cyflawni dymuniad y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael ei gwahanu oddi wrth y boblogaeth sefydlog.
- Mynegi pryder ynghylch cynnig safle i'w ystyried ymhellach ar gyfer y CDLIN, os nad yw'n ddiweddarach yn gymwys ar gyfer grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, a'r risg i drethdalwyr yn sgil hynny.
- Gofynnwyd am eglurder ynghylch y sgôr CAG, gan fod gan Bradbury Farm fwy o goch a melyn na safleoedd a argymhellwyd i'w tynnu o'r ystyriaeth.
- Dadlau bod dyletswydd gofal yn golygu dod o hyd i'r safle mwyaf addas, ac y bydd y Cyngor yn methu'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr os yw safleoedd nad yw'n addas yn cael eu gwithio trwodd.
- O ystyried bod yr angen wedi gostwng o 13 cae'r flwyddyn yn ôl i 7, gofyn pa mor hyderus y gall y Cyngor fod nad oes safleoedd eraill sy'n bodoli eisoes, sy'n addas i'w hehangu er mwyn lleihau'r nifer ymhellach.
- Mynegodd sawl aelod eu hyder yn y broses fel y nodwyd gan yr Aelod Cabinet, gan gytuno nad yw'n bosibl dod o hyd i safle 'perffaith', a dadlau bod Bradbury Farm yn bodloni dyletswydd a chyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu safleoedd addas ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Gofyn a roddwyd unrhyw ystyriaeth i safleoedd cyflogaeth, yn hytrach na safleoedd preswyl yn unig. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod holl dir y Cyngor o bob defnydd wedi cael ei ystyried.
- Mynegodd sawl aelod bryder mai ychydig iawn o adborth sydd wedi bod gan y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cafodd ei gydnabod gan swyddogion bod hyn yn bwysig ac mae'n ystyriaeth barhaus. Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio Teithio Ymlaen fel ffrind beirniadol a'i nod yw sefydlu rhestr aros o leiniau a fydd yn darparu rhagor o wybodaeth am ddewisiadau aelwydydd.
- Gofyn a wnaed yn glir yn yr ymgynghoriad y byddai llety preswyl wrth ymyl Bradbury Farm, ac a ellid egluro'r ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.
- Gofyn a oedd pawb yn ymwybodol y byddai llwybr teithio llesol yn cael ei roi drwy'r safleoedd, o'r tai newydd i'r safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

#### **4. Cyfarfod nesaf: 3ydd Medi 2024 (Arbennig) a 10fed Hydref 2024.**

#### **5. Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

Aeth y cyfarfod i mewn i sesiwn gaeedig, er mwyn trafod safleoedd awdurdodedig ac anawdurdodedig lle gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Gall Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (paragraffau 12 i 18) alluogi gwahardd y wasg a'r cyhoedd i drafod gwybodaeth eithriadig, ar yr amod bod swyddog wedi gwneud asesiad bod budd y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnodd y Cadeirydd i awdur yr adroddiad wneud asesiad o les y cyhoedd ac i gynghori'r pwyllgor ar y sail ar gyfer yr eithriad.

Dywedodd y swyddog mai'r paragraffau perthnasol ar gyfer eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Atodlen 12A, Rhan 4 oedd paragraffau 12 - gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol, 13 – gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu hunaniaeth unigolyn a 14 – gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno). Gofynnodd y Cadeirydd i'r pwyllgor a oeddent yn derbyn y sail dros yr eithriad a chynhaliwyd pleidlais gyda'r holl aelodau'n gytûn. Cafwyd egwyl fer a gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod.

### **Crynodeb y Cadeirydd a chanlyniad ffurfiol y gwaith craffu:**

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion. Mynegodd pob aelod a oedd yn bresennol eu gwerthfawrogiad llawn, yn arbennig i aelodau'r cyhoedd am eu cyfraniadau a'u hamser.

Argymhellodd pum Aelod y dylai'r Cabinet fwrw ymlaen ag Opsiwn 4. Y rhesymau a roddwyd oedd bod aelodau'n teimlo bod safleoedd yn anaddas, byddai crynodiad o safleoedd mewn pentrefan bach, a bod angen mwy o archwilio safleoedd preifat a bod angen mwy o fanylion am y costau refeniw. Roedd yr aelodau a argymhellodd Opsiwn 4 yn teimlo y dylid tynnu Langley Close fel safle posibl.

Argymhellodd pedwar Aelod y dylid bwrw ymlaen ag Opsiwn 1, a'r rhesymau oedd eu bod yn teimlo bod yr esboniad wedi bod yn helaeth, eu cwestiynau wedi'u hateb a bod angen cyflawni'r cyfrifoldebau cyfreithiol o ran Sipsiwn a Theithwyr Roma. Roedd dau o'r Aelodau a argymhellodd Opsiwn 4 hefyd yn teimlo y dylid dileu Langley Close.

Argymhelliad ffurfiol y pwyllgor i'r Cabinet felly oedd Opsiwn 4: tynnu pob un o'r tri safle i'w datblygu fel safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## **6. Y Cyfarfod Nesaf:**

3ydd Medi 2024 (Arbennig) a 10fed Hydref 2024.

The meeting ended at **8.01 pm**